**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig o'r enw "Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru."**

## Argymhelliad 1 y Pwyllgor

"Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi strategaeth arbennig ac uniongyrchol i ddatblygu pysgodfeydd Cymru. Mae'n rhaid i'r strategaeth sicrhau bod y safonau amgylcheddol uchaf yn cael eu cynnal"

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ymgynghoriad yn y flwyddyn newydd o'r enw "Brexit a'n Moroedd" fel cam cyntaf tuag at ddarparu polisi pysgodfeydd wedi'r UE, wedi'i gynllunio gyda rhanddeiliaid i adlewyrchu anghenion y sector pysgodfeydd modern yng Nghymru, ac i reoli'r effaith ar yr amgylchedd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhoi sylfaen gref ar gyfer gweithredu, gan ein hymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rwyf wedi ymrwymo o hyd i fod yn stiward ar yr amgylchedd morol tra'n sicrhau twf economaidd i'n cymunedau arfordirol ar lefel leol a chenedlaethol.

## Argymhelliad 2 y Pwyllgor

"Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y 12 wythnos nesaf ynghylch y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys trafodaethau ynghylch y fframwaith cyffredin arfaethedig ar gyfer rheoli pysgodfeydd ac unrhyw gynigion ar gyfer dulliau rhwng llywodraethau i hwyluso cytundeb rhwng Gweinyddiaethau y DU ar fframweithiau cyffredin, gan gynnwys y polisi pysgodfeydd."

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.**

Rwy'n cadarnhau bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar y polisi pysgodfeydd yn y dyfodol. Mae trafodaethau swyddogol yn parhau i ddatblygu telerau ar gyfer fframwaith pysgodfeydd ledled y DU, sy'n weinyddol yn bennaf. Mae bil pysgodfeydd y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer datganiad polisi wedi'i gytuno ar y cyd i fod yn sail i elfennau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol y fframwaith. Byddaf yn falch o roi'r newyddion diweddaraf i'r pwyllgor wedi dod â'r trafodaethau hyn i ben.

### Argymhelliad 3 y Pwyllgor

"Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn trafod yn barhaus gyda chynrychiolwyr ledled y sector pysgodfeydd cyfan. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf ar y camau y bydd yn eu cymryd i ehangu'r trafodaethau."

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.**
Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu ac wedi cydweithio'n agos â nifer o grwpiau pysgodfeydd a grwpiau morol sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r grwpiau hyn yn cynrychioli trawstoriad eang o safbwyntiau pob rhanddeiliad. Rwy'n fodlon rhoi amlinelliad o weithgareddau cysylltu Llywodraeth Cymru ar draws y sector pysgodfeydd a gweld a ydym yn gweld unrhyw angen i gysylltu hyd yn oed yn ehangach.

### Argymhelliad 4 y Pwyllgor

"Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 12 wythnos nesaf ynghylch a yw'n credu bod ei gapasiti ar y polisi pysgodfeydd, o ran nifer staff ac arbenigedd, yn ddigonol yn y tymor byr. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl hefyd i'r Pwyllgor hwn ar unrhyw gynlluniau sydd ganddi i gynyddu capasiti yn y meysydd hynny."

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.**
Rwyf yn credu bod gennym ddigon o gapasiti o ran y polisi pysgodfeydd a'n bod yn ceisio cynyddu capasiti i ddelio gyda gwaith yn y tymor byr i baratoi ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac yn ysgrifennu at y Pwyllgor o fewn y 12 wythnos nesaf pe byddem yn gweld angen i wyro oddi wrth ein cynlluniau presennol.

### Argymhelliad 5 y Pwyllgor

"Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 12 wythnos ar ei chynlluniau i gynyddu'r galw domestig am bysgod a physgod cregyn o Gymru."

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth bwyd môr fel ffynhonnell protein cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gysylltu gyda'r prif randdeiliaid i geisio cynyddu'r defnydd domestig ac rydym wedi ariannu prosiect marchnata bwydydd môr 'Menter a Busnes', sy'n werth oddeutu £1 miliwn drwy Gronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Rydym wedi datblygu a chyfrannu at ryseitiau yn ymgyrch Seafood 'Fish is the Dish'.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo cynnyrch o Gymru mewn digwyddiadau masnach megis y Seafood Expo Global, sy'n ddigwyddiad ledled y byd yn cynnwys holl fanwerthwyr a phroseswyr mawr y DU. Mae'r Clwstwr Bwyd Môr wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda manwerthwyr o fewn y DU. Os oes angen, byddem yn hapus i roi rhagor o fanylion.

### Argymhelliad 6 y Pwyllgor

"Nid yw dyraniad y cwota i Gymru o dan Goncordat Pysgodfeydd y DU 2012 yn ddyraniad teg ac mae'n cyfyngu ar ddatblygu pysgodfeydd Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru geisio ail-drafod gyda Choncordat Pysgodfeydd y DU, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn y dyraniad o gwotâu."

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.**
Mae'r gyfran yng Nghoncordat Pysgodfeydd y DU 2012 yn seiliedig ar hanes y diwydiant bryd hynny. Mae'n ymddangos bod gan gychod masnachol mwy, sy'n gweithredu fel rhan o sefydliadau cynhyrchu, gyfran helaeth o gyfleoedd pysgota ledled y DU. Er y bydd cyfanswm y pysgod sy'n cael eu dal yn gynaliadwy yn parhau i gael ei bennu ar gyfer yr ardal Ewropeaidd gyfan, rwy'n credu y gallwn drafod, dros amser, gyfran fwy o'r pysgod ar gyfer y DU a Chymru. Dylai cyfran o unrhyw bysgod ychwanegol sy'n cael eu dal drwy'r trafodaethau hyn gael eu defnyddio i sicrhau bod mwy o gydbwysedd yn y segmentau sydd wedi bod gan pob fflyd yn y gorffennol.

### Argymhelliad 7 y Pwyllgor

"Mae'n rhaid cynnwys dull sy'n seiliedig ar ecosystem a'i defnyddio o fewn polisi pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol."

**Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.**
Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, drwy Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, i reoli'r amgylchedd morol drwy ddull sy'n seiliedig ar yr ecosystem. Mae cadw stociau pysgod ar lefelau cynaliadwy yn rhan annatod o ecosystem forol iach. Mae asesu cyfleoedd pysgota, gan Gyngor Rhyngwladol Archwilio'r Moroedd, yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar yr ecosystem i asesu cyfleoedd pysgota. Bydd Gweinyddiaethau Pysgodfeydd y DU Cymru ac eraill yn parhau i gydweithio gydag ICES i asesu lefelau stoc wedi inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 8 y Pwyllgor**
"Dylai'r cymorth ariannol i bysgodfeydd adlewyrchu blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno system o gymorth ariannol sydd, o leiaf yn rhannol, yn gwobrwyo canlyniadau cynaliadwy a darparu nwyddau cyhoeddus."

**Ymateb: Gwrthod**

**Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.**
Mae Llewyrch i Bawb yn gwneud gwariant Llywodraeth Cymru yn glir, gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol i bysgodfeydd, a bydd bob amser yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol y llywodraeth. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymrwymo pob un o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ystyried canlyniadau cynaliadwy fel rhan o'u busnes arferol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ehangach ar ddulliau o gael cymorth ariannol fel rhan o ymgynghoriad "Brexit a'n Moroedd". Byddaf yn hapus i ysgrifennu at y Pwyllgor yn dilyn casgliadau yr ymgynghoriad i'ch gwneud yn ymwybodol o ymateb rhanddeiliaid ac ym mha feysydd y gallaf geisio cynnig cymorth ariannol.